



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales**  
**(The Official Record)**

**Dydd Mercher 12 Mai 1999**

**Wednesday 12 May 1999**

**Cynnwys**  
**Contents**

3	Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru <i>Statement by the Secretary of State for Wales</i>
4	Ethol y Llywydd <i>Election of the Presiding Officer</i>
5	Ethol y Dirprwy Lywydd <i>Election of the Deputy Presiding Officer</i>
6	Ethol y Prif Ysgrifennydd <i>Election of the First Secretary</i>
19	Datganiad Busnes: Y Prif Ysgrifennydd <i>Business Statement: The First Secretary</i>

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 11.00 a.m. gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Y Gwir Anrhydeddus Alun Michael YH AS, yn y Gadair.  
The Assembly met at 11.00 a.m. with the Secretary of State for Wales, The Rt. Hon. Alun Michael JP MP, in the Chair.*

## **Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru Statement by the Secretary of State for Wales**

**Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Alun Michael):** Bore da, bawb. Dyma ddiwrnod hanesyddol i bawb yng Nghymru. Wedi ethol ein Cynulliad am y tro cyntaf erioed, yr ydym yn cyfarfod yn swyddogol am y tro cyntaf. Fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac fel Aelod Seneddol De Caerdydd a Phenarth, fe'ch croesawaf yma heddiw.

Bydd y system gyfieithu yn caniatáu inni ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r system yn cynnig dewis a chydardoldeb. Ar y dechrau, fodd bynnag, gadewch imi roi'r croeso yn Saesneg hefyd er mwyn pwysleisio'r dewis a'r neges i bawb.

As I said, the system will allow us to use Welsh or English; it allows choice and equality. However, at the start, I choose to give the welcome in both Welsh and English to emphasise that fairness to everybody.

Over the past two years, we have passed one milestone after another. How many times has the phrase 'another historic day for Wales' been used? On no day has that description been so fitting as today, as we meet for the first time as the National Assembly for Wales. As Secretary of State for Wales, and as Member of Parliament for Cardiff South and Penarth—where we meet—I welcome you. I now call on you to fulfil your first responsibility, which is to elect a Presiding Officer for the Assembly.

**The Secretary of State for Wales (Alun Michael):** Good morning. This is an historic day for everybody in Wales. Having elected our Assembly for the first time ever, we now meet officially for the first time. As Secretary of State for Wales and as Member of Parliament for Cardiff South and Penarth, I welcome you here today.

The translation system will allow us to use either English or Welsh. The system allows choice and equality. On this occasion, however, may I also welcome you in English, simply to highlight to all the choice and the message.

Fel y dywedais, bydd y system yn caniatáu inni ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg; mae'n cynnig dewis a chydardoldeb. Ar y dechrau, fodd bynnag, yr wyf am eich croesawu yn y Gymraeg a'r Saesneg, i bwysleisio'r tegwch hwnnw i bawb.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, aethom heibio i un garreg filltir ar ôl y llall. Sawl gwaith y defnyddiwyd yr ymadrodd 'diwrnod hanesyddol arall i Gymru'? Ni fu'r disgrifiad hwnnw erioed mor berthnasol ag ydyw heddiw, wrth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarfod am y tro cyntaf. Fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac fel Aelod Seneddol De Caerdydd a Phenarth—lle'r ydym yn cwrdd—fe'ch croesawaf yma. Galwaf arnoch yn awr i gyflawni eich dyletswydd gyntaf, sef ethol Llywydd y Cynulliad.

## Ethol y Llywydd Election of Presiding Officer

**Dafydd Wigley:** Hoffwn gynnig Dafydd Elis-Thomas yn Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Andrew Davies:** I second Dafydd Elis-Thomas.

**Alun Michael:** The Assembly agrees to the election of Dafydd Elis-Thomas. I invite him to take the Chair.

**Y Llywydd (Dafydd Elis-Thomas):** Ysgrifennydd Gwladol a chyd-aelodau o'r Cynulliad Cenedlaethol, hoffwn ddiolch yn gyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol am gadeirio hyd yn hyn. Diolch hefyd i chi, Aelodau'r Cynulliad, am ymddiried yn of.

Ni fyddem yma heddiw oni bai am y gwaith adeiladu a fu ar y prosiect hwn. Yr wyf am gyfeirio'n gyntaf at yr ymdrechion ymarferol i baratoi'r ddarpariaeth ysblennydd hon ar ein cyfer. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i swyddogion y Swyddfa Gymreig ac i bawb a fu'n gysylltiedig â'r gwaith addasu, sydd wedi creu Siambr a Chynulliad y mae'n bleser gweithio ynddynt. Nid ychwanegaf fod y man hwn yn fwy pleserus na rhai lleoedd eraill yr wyf wedi gweithio ynddynt—ond fe allwn ddweud hynny.

Yr wyf yn ddiolchgar hefyd am y modd y cawsom arweiniad yn dilyn Etholiad Cyffredinol Mai 1997—am osod fframwaith datganoli yn ei le mor chwim, am gyhoeddi Papur Gwyn y Llywodraeth, ac am sefydlu'r Cynulliad ei hun. Nid yw'n fwrriad gennyf o hyn ymlaen enwi unrhyw Aelod o'r Cynulliad, ond hoffwn fanteisio ar y cyfle i dalu teyrnged i Ron Davies a'i groesawu i'r Cynulliad yn Aelod dros Gaerffili.

As Alun Michael has stated so clearly, this is a bilingual building, and we have facilities to offer a choice of language. As

**Dafydd Wigley:** I propose Dafydd Elis-Thomas as Presiding Officer of the National Assembly for Wales.

**Andrew Davies:** Yr wyf yn eilio Dafydd Elis-Thomas.

**Alun Michael:** Mae'r Cynulliad yn cytuno i ethol Dafydd Elis-Thomas. Yr wyf yn ei wahodd i fynd i'r Gadair.

**The Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas):** Secretary of State and National Assembly colleagues, may I, first of all, thank the Secretary of State for chairing the proceedings up to this point. I also thank you, Members of the Assembly, for placing your trust in me.

We would not be here today if it were not for the work done to build this project. I want to refer first of all to the practical efforts in preparing the magnificent facilities provided for us. I am very grateful to the officials of the Welsh Office, and all who were involved in the adaptations—who have created for us a Chamber and an Assembly in which it will be a pleasure to work. I will not add that it is more pleasurable than other places I have worked in—but I could say so.

I am also grateful for the way in which we were led and guided following the General Election in May of 1997—for the speed with which the framework of devolution has been set up, for the publication of the Government White Paper, and for the establishment of the Assembly itself. It will not in future be my intention to name any Member of the Assembly. However, I wish to take advantage of this opportunity to pay tribute to Ron Davies, and to welcome him as the Assembly Member for Caerphilly.

Fel y cyhoeddodd Alun Michael mor glir, mae hwn yn adeilad dwyieithog, ac mae gennym gyfleusterau i gynnig dewis o ran

a bilingual speaker—in the two senses of the word—I intend to make full use of that facility, and I hope all other Members will. I do not yet know you all personally. I know that many of you who may not be fluent Welsh speakers decided to take the Oath in Welsh, and that is a sign of your commitment to our bilingualism. I hope that we will make full use of our facilities, and that will be part of the inclusiveness of our new democracy.

Yr wyf yn ymwybodol iawn hefyd o'r angen i sicrhau bod pob barn yn cael ei hadlewyrchu yn y Cynulliad. Wrth eistedd yma, pleser yw cael gweld yr hen grŵp—fy nghyn-grŵp—yn eistedd ar y dde eithaf imi. Pleser wedyn yw gweld fy hen gyfaill, Arweinydd y Ceidwadwyr, ar y chwith eithaf. Efallai nad yw'n ymddangos felly o bersectif y gweddill ohonoch. Ond y mae'r Siambr hon ynddi hi ei hun yn arwydd, gobeithio, o'r math o wleidyddiaeth a fydd yn digwydd ynddi.

Mae hon yn foment hanesyddol yn hanes Cymru. Mae hefyd yn hanesyddol yn hanes y Deyrnas Unedig ac yn hanes Ewrop. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn ymateb i'r gofyn sydd arnom, ac yn arbennig ein bod yn sensitif i'r bobl hynny nad oeddent yn dymuno inni fod yma, ac i'r sawl na chymerodd ran yn y broses o'n hethol.

11:09 a.m.

Os yw'r brwdfrydedd a'r ewyllys da a welwn heddiw yn arwydd o unrhyw beth, mae'n arwydd o benderfyniad yr Aelodau i wneud y Cynulliad hwn yn Gynulliad gwir ddemocrataidd, gwir agored a gwerinol yn ei ddull o weithredu.

iaith. Fel llefarydd dwyieithog—yn y naill ystyr a'r llall—bwriadaf fanteisio'n llawn ar y ddarpariaeth, a gobeithiaf y bydd pob Aelod arall yn gwneud hynny. Nid wyf yn adnabod pob un ohonoch yn bersonol eto. Gwn fod llawer ohonoch nad ydych, efallai, yn rhugl eich Cymraeg, wedi penderfynu tyngu'r Llw yn y Gymraeg, ac mae hynny'n arwydd o'ch ymrwymiad i'n dwyieithrwydd. Gobeithiaf y byddwn yn defnyddio ein cyfleusterau i'r eithaf, ac y bydd hynny'n rhan o gynwysoldeb ein democratiaeth newydd.

I am also aware of the need to ensure that all opinions are reflected in this Assembly. Sitting here, I have the pleasure of seeing the old group—my former group—sitting on my extreme right. It is also a pleasure to see my old friend—the Leader of the Conservatives—on my extreme left. Perhaps that is not how it appears from the perspective of the rest of you. However, this Chamber in itself is a sign, I hope, of the type of politics that will be conducted here.

This is an historic moment in the history of Wales. It is also historic in the history of the United Kingdom and of Europe. It is important, therefore, that we respond to the demands upon us, and in particular, that we be sensitive to those who did not want us to be here, and to those who did not participate in the election process.

If the enthusiasm and goodwill seen today is an indication of anything, it is an indication of Members' determination to make this Assembly truly democratic, truly open and in touch with the grass-roots in its mode of operation.

### **Ethol y Dirprwy Lywydd Election of Deputy Presiding Officer**

**The Presiding Officer:** It is my pleasure to invite nominations for the post of Deputy Presiding Officer. The Deputy will not be from the same party as the

**Y Llywydd:** Mae'n bleser gennyf wahodd enwebiadau i swydd y Dirprwy Lywydd. Bydd y Dirprwy o blaid wahanol i'r Llywydd.

Presiding Officer.

**Andrew Davies:** I nominate Jane Davidson, the Member for Pontypridd.

**Andrew Davies:** Enwebaf Jane Davidson, yr Aelod dros Bontypridd.

**Michael German:** I second the nomination of Jane Davidson.

**Michael German:** Hoffwn eilio enwebiad Jane Davidson.

**The Presiding Officer:** It is my great pleasure to declare Jane Davidson the Deputy Presiding Officer. I invite Jane to address you.

**Y Llywydd:** Mae'n bleser mawr gennyf ddatgan mai Jane Davidson yw'r Dirprwy Lywydd. Yr wyf yn gwahodd Jane i'ch annerch.

**The Deputy Presiding Officer (Jane Davidson):** Those of you who know me well will know that I like talking. Unfortunately, my throat prevents me from doing so today. I am here because, like you, I want to see a new participative democracy in Wales, and I will do my best to work with the Presiding Officer and with all the political parties in this Chamber to achieve that. Thank you very much for the nomination.

**Y Dirprwy Lywydd (Jane Davidson):** Fe wŷ yr y rhai ohonoch sy'n fy adnabod yn dda fy mod yn hoff o siarad. Yn anffodus, mae fy ngwddf yn fy rhwystro rhag gwneud hynny heddiw. Yr wyf yma am fy mod, fel chithau, am weld democratiaeth gyfranogol newydd yng Nghymru, a byddaf yn gwneud fy ngorau i weithio gyda'r Llywydd a chyda'r holl bleidiau gwleidyddol yn y Siambr hon i gyflawni hynny. Diolch yn fawr am fy enwebu.

### **Ethol y Prif Ysgrifennydd Election of First Secretary**

**Y Llywydd:** Hoffwn wahodd enwebiadau am swydd y Prif Ysgrifennydd.

**The Presiding Officer:** I invite nominations for the post of First Secretary.

**Rhodri Morgan:** Cynigiaf Alun Michael AS yn Brif Ysgrifennydd y Cynulliad.

**Rhodri Morgan:** I propose Alun Michael MP as First Secretary of the Assembly.

**Y Llywydd:** A oes eilydd?

**The Presiding Officer:** Is there a seconder?

**Ann Jones:** It gives me great pleasure to second the nomination of Alun Michael as First Secretary of this first Assembly.

**Ann Jones:** Mae'n bleser mawr gennyf eilio enwebiad Alun Michael yn Brif Ysgrifennydd y Cynulliad cyntaf hwn.

**The Presiding Officer:** Are there any other nominations for First Secretary? In the absence of further nominations, I declare with great pleasure that Alun Michael is duly elected as First Secretary of the Assembly.

**Y Llywydd:** A oes unrhyw enwebiadau eraill am swydd y Prif Ysgrifennydd? Gan nad oes enwebiadau pellach, yr wyf yn datgan gyda phleser fod Alun Michael wedi ei ethol yn briodol yn Brif Ysgrifennydd y Cynulliad.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Diolch o galon am y cyfle hwn i arwain y Cynulliad ar ddechrau'r daith newydd hon. Wedi llwyddo i gael Cynulliad, y mae'r fraint

**The First Secretary:** I thank you sincerely for this opportunity to lead the Assembly at the start of this new journey. After succeeding in securing an Assembly,

a'r cyfrifoldeb o lwyddo yn fawr i ni sydd wedi ein hethol.

I am conscious that the weight of history is upon all of us today. Many shadows in this Chamber are people who worked for devolution and yearned for the establishment of an Assembly which would see decisions taken here in Wales, for Wales, by people elected by the people in Wales.

I start by echoing the tribute that Dafydd gave to Ron Davies for the period before and after the last General Election. You rightly reflected on the speed with which the promise to the people of Wales was kept—the promise that leads to us being here today. Of course, those two years were filled with difficult and challenging battles. It was, therefore, an enormous achievement by Ron to have orchestrated the legislation, the success in the referendum and the establishment of the foundations for the Assembly.

Some of those who went before us would have disagreed passionately with each other—some seeing the Assembly as strengthening the United Kingdom, as I do; others wishing to go further towards independence, if I can mention that word in present company. It is not just the great figures of our national political life who dreamed of this day. On a personal note, I recall the passion with which John Reynolds, a teacher here in Cardiff and later leader of the City Council, argued the case for devolution within the Labour Party as we worked together on our party's paper, *Wales Radical Cymru*, some 30 years ago. However, from whatever strand of history we draw our inspiration, we must not let down those who went before us.

We must start our work with a sense of humility, as well as determination. The low turnout last week reminds us that many remain at best agnostic about the value of this Assembly and our capacity—the capacity of those in this Chamber—to

the honour, and the responsibility to succeed, are both great for those of us who have been elected.

Yr wyf yn ymwybodol bod hanes yn pwysu ar bob un ohonom heddiw. Ymysg y cysgodion yn y Siambr hon mae lluo o bobl a weithiodd o blaid datganoli, gan ddyheu am sefydlu Cynulliad a fyddai'n gwneud penderfyniadau yma yng Nghymru, dros Gymru, gan bobl wedi eu hethol gan y bobl yng Nghymru.

Dechreuaf drwy adleisio teyrnged Dafydd i Ron Davies am y cyfnod cyn yr Etholiad Cyffredinol diwethaf ac wedi hynny. Cwbl briodol oedd ichi nodi mor chwim y gwiredwyd yr addewid i bobl Cymru—yr addewid sy'n peri ein bod ni yma heddiw. Wrth reswm, bu'r ddwy flynedd hyn yn llawn brwydrau anodd ac yn llawn her. Yn wyneb hynny, campwaith aruthrol oedd gwaith Ron yn tynnu'r ddeddfwriaeth ynghyd, yn sicrhau llwyddiant y refferendwm ac yn sefydlu seiliau'r Cynulliad.

Byddai rhai o'r rheini a'n rhagflaenodd wedi anghytuno'n ddirfawr â'i gilydd—rhaid, fel minnau, yn meddwl bod y Cynulliad yn atgyfnerthu'r Deyrnas Unedig; eraill am fynd ymhellach tuag at annibyniaeth, os caf grybwyll y gair hwnnw yn y cwmni sydd yma. Nid dim ond gwyr mawr ein bywyd gwleidyddol cenedlaethol a fu'n breuddwydio am y diwrnod hwn. O'm rhan fy hun, cofiaf mor angerddol y bu John Reynolds, athro yma yng Nghaerdydd ac arweinydd Cyngor y Ddinas yn ddiweddarach, yn dadlau'r achos dros ddatganoli yn y Blaid Lafur wrth inni weithio gyda'n gilydd ar bapur y blaid, *Wales Radical Cymru*, ryw 30 mlynedd yn ôl. Pa elfen bynnag yn ein hanes sy'n ein hysbrydoli, rhaid i ni beidio â siomi'r rhai a'n rhagflaenodd.

Rhaid i ni ddechrau ar ein gwaith yn ostyngedig ac yn benderfynol. Mae'r niferoedd isel a bleidleisiodd yr wythnos ddiwethaf yn ein hatgoffa bod llawer o bobl yn amau gwerth y Cynulliad hwn a'n gallu ni—y rhai yn y Siambr hon—i wella

improve their daily lives. On Monday of this week, Radio Cymru interviewed my eldest daughter in South Africa, on the anniversary of Nelson Mandela's election. I was struck when she reminded us of the mile-long queues as South Africans voted for their first democratically elected Parliament a few years ago. A different history, a different event, but a reminder of how we should nurture and treasure our democracy here in Wales. I am conscious, too, of those who are not here at the start of our journey. Each party has its names, but from several Labour stalwarts I must mention Wayne David, who gave up his career in the European Parliament to seek a place in this Assembly. It gives reason for those of us who are here to treasure our presence and the opportunity we have been given.

The vote last week does not lessen the authority of this Chamber, as everybody had the opportunity to vote. However, it does increase the sense of duty and commitment with which each one of us must approach our responsibility to make this Assembly work—to work effectively as a team and to work for Wales. In four years time, all the electors of Wales must look at this Assembly and feel that it matters to them who represents them as they approach the second Welsh General Election.

This is not the time to pick over messages from before our election, but I ask all Members of all parties to reflect that, in seeking to demean an opponent, you often cast doubt on the honourable calling of political life itself. In preparing for this Assembly, many of us have prepared processes and structures which are intended to build consensus and to encourage work across political boundaries to promote partnership and co-operation. That was the work undertaken by the National Assembly Advisory Group with people from all parties involved.

If we are to develop a new politics for a new Wales, we must take care lest the old

eu bywydau beunyddiol. Ddydd Llun yr wythnos hon, cynhaliodd Radio Cymru gyfweiliad â'm merch hynaf yn Ne Affrica, ar ben-blwydd ethol Nelson Mandela. Atgoffodd ni fel y bu pobl De Affrica yn sefyll mewn rhesi milltiroedd o hyd i bleidleisio dros eu Senedd gyntaf i'w hethol yn ddemocrataidd ychydig flynyddoedd yn ôl. Hanes gwahanol, digwyddiad gwahanol, ond un sy'n ein hatgoffa y dylem feithrin a thrysori ein democratiaeth yng Nghymru. Yr wyf yn ymwybodol, hefyd, o'r rhai nad ydynt yma ar ddechrau ein taith. Mae gan bob plaid ei henwau, ond o blith selogion y Blaid Lafur rhaid i mi enwi Wayne David, a ildiodd ei yrfa yn Senedd Ewrop i geisio sedd yn y Cynulliad hwn. Dylai hyn beri i'r rhai ohonom sydd yma drysori ein presenoldeb a'r cyfle a roddwyd i ni.

Nid yw'r bleidlais yr wythnos ddiwethaf yn lleihau awdurdod y Siambr hon, gan i bawb gael cyfle i bleidleisio. Fodd bynnag, y mae'n cynyddu'r ymdeimlad o ddyletswydd ac ymroddiad sy'n ofynnol gan bob un ohonom wrth inni ysgwyddo'r cyfrifoldeb am wneud i'r Cynulliad weithio—gweithio'n effeithiol fel tîm a gweithio dros Gymru. Ymhen pedair blynedd, rhaid i holl etholwyr Cymru edrych ar y Cynulliad hwn a themlo bod pwy sy'n eu cynrychioli yn bwysig iddynt wrth ddynesu at ail Etholiad Cyffredinol Cymru.

Nid dyma'r amser i wyntyllu negeseuon o'r cyfnod cyn yr etholiad, ond gofynnaf i bob Aelod o bob plaid gofio eich bod, wrth geisio difrio gwrthwynebydd, yn aml yn bwrw amheuaeth ar anrhydedd yr alwedigaeth wleidyddol ei hun. Wrth baratoi ar gyfer y Cynulliad, mae llawer ohonom wedi paratoi prosesau a strwythurau a fwriedir i greu consensws ac i annog gweithio ar draws ffiniau gwleidyddol, gan hybu partneriaeth a chydweithrediad. Dyna waith Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol gyda chyfraniadau gan bobl o bob plaid.

Os ydym am ddatblygu gwleidyddiaeth newydd i'r Gymru newydd, rhaid gofalu



habits of the old politics contaminate our new National Assembly for Wales. When I hoped for a Labour majority, I promised leadership which would be inclusive. In the decisions that I have taken so far, I have demonstrated the determination to put those principles into practice and I have received the full support of the Labour Members of the Assembly in doing so.

Agreements on policies and agreements between parties will be important as we seek to give stability to our Assembly. We must all nurture the effectiveness and the quality of decision-making here if we are to win respect for ourselves and for the Assembly. The new politics demands a new approach in broadcasting and journalism, too. If only division and name calling are regarded as sufficiently interesting to make headlines or to lead the news, it will hardly encourage the new inclusive politics to which many of us in this Chamber, across party boundaries, have committed ourselves. That is not a criticism of the journalists or the broadcasters—I was after all a retired journalist before I became a retired youth worker—it is a reflection on the world of political debate, which is inhabited by journalists and politicians alike. We are all in it together, and sometimes we all disappoint our public.

There are positive signs. The BBC was right to decline to break up the six o'clock news. I believe that this Assembly, this strong voice in Wales for the people of Wales will strengthen the United Kingdom. I therefore want to hear more about Wales on the network, not less. The BBC got it right in my view. The greater commitment of resources by the BBC, HTV, *The Western Mail*, the *Daily Post*, my old newspaper—the *South Wales Echo*—and many others is right. We must strive to make the new politics of partnership and co-operation interesting for them and for the public.

na chaiff hen arferion yr hen wleidyddiaeth halogi ein Cynulliad Cenedlaethol newydd. Wrth obeithio am fwyafrif Llafur, addewais arweinyddiaeth gynhwysol. Yn y penderfyniadau a wneuthum hyd yn hyn, yr wyf wedi dangos fy mhenderfyniad i roi'r egwyddorion hynny ar waith, a chefais gefnogaeth lawn Aelodau Llafur y Cynulliad yn hyn o beth.

Bydd cytuno ar bolisiau a chytundebau rhwng y pleidiau yn bwysig wrth inni geisio rhoi sefydlogrwydd i'n Cynulliad. Rhaid i bawb ohonom feithrin effeithiolrwydd a safon y penderfyniadau a wneir yma os ydym am ennyn parch i ni ein hunain ac i'r Cynulliad. Mae'r wleidyddiaeth newydd yn mynnu agwedd newydd o du darlledu a newyddiaduraeth hefyd. Os bernir mai dim ond ymrannu a galw enwau sy'n ddigon diddorol i hawlio'r penawdau neu i fod yn brif stori newyddion, prin y bydd hynny'n hybu'r wleidyddiaeth newydd gynhwysol y mae cynifer ohonom yn y Siambr hon, ar draws ffiniau'r pleidiau, wedi ymrwymo iddi. Nid beirmiadu newyddiadurwyr na darlledwyr yr wyf—wedi'r cyfan, yr oeddwn yn newyddiadurwr wedi ymddeol cyn bod yn weithiwr ieuentid wedi ymddeol. Cyfeirio yr wyf yn hytrach at fyd trafod gwleidyddol, y cyfrennir ato gan newyddiadurwyr a gwleidyddion fel ei gilydd. Mae gan bawb ohonom ran i'w chwarae, ac weithiau fe fyddwn oll yn siomi'r cyhoedd.

Mae yna arwyddion cadarnhaol. Yr oedd y BBC yn iawn i wrthod datgymalu'r newyddion chwech o'r gloch. Credaf y bydd y Cynulliad hwn, y llais cryf hwn yng Nghymru dros bobl Cymru, yn atgyfnerthu'r Deyrnas Unedig. Yr wyf felly am glywed mwy am Gymru ar y rhwydwaith, nid llai. Yr oedd y BBC yn llygaid ei le yn fy marn i. Mae'r BBC, HTV, *The Western Mail*, y *Daily Post*, fy hen bapur i—y *South Wales Echo*—a llu o rai eraill yn iawn i neilltuo mwy o adnoddau. Rhaid inni ymdrechu i wneud y wleidyddiaeth newydd o bartneriaethau a chyd-weithredu yn ddi-ddorol iddynt hwy

However, there are other positive signs. In many of the debates in recent weeks in which the leaders of the four parties sought to set out our different stalls, we often covered familiar ground time and time again. Among those positive signs, the most significant for me was the *Byd ar Bedwar* programme, in which young men and women who had researched a number of topics discussed their ideas, put forward suggestions and engaged us with humour and good will. Challenging, yes; rancorous, no. We have a new Wales, a new politics, a new broadcasting, perhaps a new journalism. Let us live in hope of that, and let us work together towards that end.

11:19 a.m.

The Assembly must work in partnership, not only across party boundaries in the Chamber, but more widely. A partnership with business is not just an aspiration I share with many of my colleagues, it is a legislative requirement. Employers and trade unions must be our partners. The voluntary sector must be our partner. We are working towards that end and have set the foundations. People in local government, and local government itself, must be in partnership with this Chamber. Those of us who have been elected are greatly privileged: we will be making history. We face an immense challenge.

We must deliver three things for Wales. First, we must deliver a better life for the people of Wales. We will be tested and challenged on our improvement of people's everyday lives. We need to provide jobs and opportunities for our young people. We need improvement in the health service and in education and training. We need hope and care for all our people. Secondly, we must deliver a sense of unity and purpose. Forgive me for stating again: '*A fo ben, bid bont*'—he who would be a leader must be a bridge. We should all seek to unite the different parts of Wales by making it clear that

ac i'r cyhoedd.

Mae yna arwyddion cadarnhaol eraill. Mewn llawer o'r trafodaethau dros yr wythnosau diwethaf pan oedd arweinwyr y pedair plaid yn ceisio cyfleu eu gwahanol safbwyntiau, troediwyd tir cyfarwydd dro ar ôl tro. Ymysg yr arwyddion cadarnhaol, y mwyaf arwyddocaol i mi oedd rhaglen y *Byd ar Bedwar*, lle'r oedd dynion a merched ifainc, a oedd wedi ymchwilio i nifer o feysydd yn trafod eu syniadau, yn cynnig awgrymiadau ac yn trafod gyda ni mewn ysbryd llawn hiwmor ac ewyllys da. Herio, ie; ond heb gynnen. Mae gennym Gymru newydd, gwleidyddiaeth newydd, darlledu newydd ac, efallai, newyddiadura newydd. Gadewch inni obeithio am hynny, a chydweithio i'r perwyl hwnnw.

Rhaid i'r Cynulliad weithio mewn partneriaeth, nid yn unig ar draws ffiniau'r pleidiau yn y Siambr hon, ond yn ehangach. Nid yn unig y mae partneriaeth gyda byd busnes yn ddyhead a rannaf â llawer o'm cydweithwyr, y mae hefyd yn ofyniad deddfwriaethol. Rhaid i gyflogwyr ac undebau llafur fod yn bartneriaid inni. Rhaid i'r sector gwirfoddol fod yn bartner inni. Yr ydym yn gweithio tuag at hynny ac mae'r seiliau wedi eu gosod. Rhaid i bobl mewn llywodraeth leol, a llywodraeth leol ei hun, fod yn bartneriaid i'r Siambr hon. Mawr yw braint y rhai ohonom a etholwyd: byddwn yn creu hanes. Mae her enfawr yn ein hwynebu.

Rhaid inni gyflawni tri pheth dros Gymru. Yn gyntaf, rhaid sicrhau gwell bywyd i bobl Cymru. Cawn ein profi a'n herio ar y gwelliannau a sicrheir gennym ym mywydau beunyddiol pobl. Mae angen i ni ddarparu swyddi a chyfleoedd i'n pobl ifainc. Mae angen gwella ein gwasanaeth iechyd, addysg a hyfforddiant. Mae angen gobaith a gofal ar gyfer pawb. Yn ail, rhaid inni gyfleu ymdeimlad o undod a chyfeiriad. Maddeuwch imi am ddatgan unwaith yn rhagor: '*A fo ben, bid bont.*' Dylai pob un ohonom geisio uno Cymru gyfan drwy ei gwneud yn glir fod pob rhan o Gymru yn bwysig i'r Cynulliad hwn ac

every part of Wales is important to this Assembly and in this Assembly. The Regional Committees will give us the opportunity to do that. However, we can also show it in everything that we do, in our lives and in the way that we conduct ourselves as Members of this Assembly.

Thirdly, we have to deliver a new confidence: in ourselves, in Wales and in political life. It is one thing to see a new Wales reflected in a try by Scott Gibbs or in creativity in the arts or in music, because those things are not achieved in a defeatist mood, but we need to create a new confidence that encompasses much more. Some of you have heard me say before that the people of Anglesey in the slate quarries of Caernarfonshire—if the leader of Plaid Cymru will allow me to mention that area—used to be known as *Pobol y Medra*, because their answer to the question, ‘Can you do this?’ was ‘*Medra*’—‘I can’. That must be our message throughout Wales. Let the whole of Wales become *Pobol y Medra*.

Gadewch i ni sicrhau teimlad o hyder. Gadewch i'r Cymry i gyd fod yn Bobol y Medra. Ein cyfrifoldeb ni yw creu'r Gymru honno.

I am very proud to have been a member of the Labour Government that has given Wales the opportunity to make these decisions, and to have responsibility within this Assembly. As many of you know, I campaigned for over 30 years for an Assembly and I am proud and honoured—though slightly hesitant—to have the opportunity to lead the Assembly. We need to build the hope and belief that the Assembly can and will change Wales for the better. Today can mark the start of a new era, not only in Welsh politics but also in Welsh life. In thanking you for the privilege of leading the Assembly, I would like to thank everyone who worked to bring it about, by taking part in political campaigning, or in working to establish the Assembly in the first place. I pledge to

yn y Cynulliad hwn. Rhydd y Pwyllgorau Rhanbarth gyfle i wneud hynny. Fodd bynnag, gallwn ei ddangos hefyd ym mhopeth a wnawn, yn ein bywydau ac yn y ffordd yr ydym yn ymddwyn fel Aelodau o'r Cynulliad.

Yn drydydd, rhaid inni ennyn hyder newydd: ynom ni ein hunain, yng Nghymru, ac yn y bywyd gwleidyddol. Un peth yw gweld Cymru newydd yn cael ei hadlewyrchu mewn cais gan Scott Gibbs neu ar ffurf greadigol yn y celfyddydau neu gerddoriaeth, oherwydd ni chyflawnir y pethau hynny mewn ysbryd o wangalondid. Mae angen creu hyder newydd sy'n cwmpasu llawer mwy. Clywodd rhai ohonoch fi yn dweud o'r blaen fod Monwysion yn chwareli llechi Sir Gaernarfon—os yw arweinydd Plaid Cymru yn fodlon imi sôn am yr ardal honno—yn arfer cael eu galw yn Bobol y Medra, oherwydd mai eu hateb hwy i'r cwestiwn, ‘Fedri di wneud hyn?’ oedd ‘*Medra*.’ A dyna fydd ein neges ni ledled Cymru. Gadewch i Gymru gyfan fod yn Bobol y Medra.

Let us ensure a feeling of confidence. Let all Welsh people be achievers, *Pobol y Medra*. It is our responsibility to create that Wales.

Yr wyf yn ymfalchïo imi fod yn aelod o'r Llywodraeth Lafur a roddodd y cyfle i Gymru wneud y penderfyniadau hyn, ac i ysgwyddo cyfrifoldeb yn y Cynulliad hwn. Fel y gŵyr llawer ohonoch, ymgyrchais am Gynulliad am dros 30 mlynedd a mawr yw fy malchder a'm braint—er fy mod fymryn yn betrus hefyd—o gael y cyfle i arwain y Cynulliad. Mae angen creu gobaith a ffydd y gall y Cynulliad newid Cymru er gwell ac y bydd yn gwneud hynny. Gall heddiw ddechrau cyfnod newydd, nid yn unig yng ngwleidyddiaeth Cymru ond ym mywyd Cymru hefyd. Wrth ddiolch am y fraint o arwain y Cynulliad, hoffwn ddiolch i bawb a weithiodd i'w wireddu, drwy ymgyrchu'n wleidyddol, neu weithio i sefydlu'r Cynulliad yn y lle cyntaf. Yr wyf yn

work with you—with the Assembly and with the people of Wales—to seek to unite Wales, east and west, north and south, rural and urban, and to remember at all times that this is not devolution from Westminster to Cardiff, but devolution from Westminster and Whitehall to Wales. We have involved every part of Wales in the devolution created by the Assembly and its first meeting today. Let us build that confident new Wales together.

**Rod Richards:** A gaf fi, Mr Llywydd, ar ran Aelodau Ceidwadol y Cynulliad, eich llongyfarch yn gynnes ac yn ddiffuant ar eich dyrchafiad i'r swydd bwysig hon.

We are confident that you, with your experience and charm, will bring to your office dignity without pomposity, good humour, wit, and perhaps most importantly, style. We do not doubt that you will conduct the affairs of this Assembly with impartiality and independence—although I am told that independence is a word that you have never ever used. We believe that you will ensure fair play for all, as advocated in the Conservative Party Manifesto. I also congratulate the Deputy Presiding Officer who I am sure will learn very quickly from the master.

We also congratulate the First Secretary. I know him to be a cautious man, one not easily persuaded to go parachuting. There is, however, evidence that he has been abseiling. I could not help but notice that he took the precaution recently of abseiling into the accident and emergency unit at the University Hospital of Wales, Cardiff. Perhaps when he writes his memoirs he will disclose whom among his colleagues he trusted to hold the rope.

You will be aware, Mr Llywydd, that we have tabled a motion to lift the ban on beef on the bone. I say to the First Secretary,

addunedu gweithio gyda chi—gyda'r Cynulliad a chyda phobl Cymru—i geisio uno Cymru, y dwyrain a'r gorllewin, y gogledd a'r de, cefn gwlad a'r trefi, ac i gofio bob amser nad datganoli o San Steffan i Gaerdydd sydd gennym, ond datganoli o San Steffan a Whitehall i Gymru. Yr ydym wedi cynnwys pob rhan o Gymru yn y datganoli a grewyd gan y Cynulliad a'i gyfarfod cyntaf heddiw. Gadewch inni adeiladu'r Gymru newydd hyderus hon gyda'n gilydd.

**Rod Richards:** May I, Mr Presiding Officer, on behalf of the Conservative Members of the Assembly, congratulate you warmly and sincerely on your elevation to this important post.

Yr ydym yn hyderus y byddwch chi, gyda'ch profiad a'ch hynawsedd, yn dod ag urddas i'ch swydd heb fod yn fawreddog. Fe ddewch â hiwmor, ffraethineb ac, yn bennaf oll efallai, steil. Nid oes gennym amheuaeth na fyddwch yn cynnal gweithgaredd y Cynulliad hwn yn ddiuedd a chydag annibyniaeth—er imi glywed bod annibyniaeth yn air nad ydych chi erioed wedi ei ddefnyddio. Credwn y byddwch yn sicrhau tegwch i bawb, yn unol â'r athroniaeth a ddatgenir ym Maniffesto'r Blaid Geidwadol. Hoffwn hefyd llongyfarch y Dirprwy Lywydd a fydd, yr wyf yn siŵ r, yn dysgu'n gyflym iawn oddi wrth y meistr.

Yr ydym hefyd yn llongyfarch y Prif Ysgrifennydd. Gwn ei fod yn ddyn pwylllog, ac nid hawdd ei berswadio i barasiwtio. Mae yna, fodd bynnag, dystiolaeth iddo fod yn abseilio. Ni allwn ond sylwi iddo ymorol am ei ddiogelwch ei hun yn ddiweddar drwy abseilio i'r uned ddamweiniau ac argyfwng yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd. Pan ddaw i ysgrifennu ei atgofion, efallai y cawn wybod i ba un o'i gydweithwyr yr ymddiriedodd y rhaff.

Fel y gwyddoch, Mr Llywydd, yr ydym wedi cyflwyno cynnig i godi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn.

who is an experienced politician and knows how important it is to understand the mood of the House, that the mood of the Assembly is to lift the ban. He should, as Westminster Secretary of State, do so now, before the Assembly compels him to do so.

Politicians of all parties have made many promises and pledges during the last few weeks. Now, the electioneering is over. The time for action has come and the clock of reckoning is ticking. Those who voted last Thursday, and those who did not, will judge what is done here by what was promised. We would all do well to recall the words of the Gospel according to St Matthew: 'Beware of false prophets, who come to you in sheep's clothing, but inwardly they are ravenous wolves. You will know them by their fruits. Do men gather grapes from thornbushes or figs from thistles? Even so, every good tree bears good fruit, but a bad tree bears bad fruit. A good tree cannot bear bad fruit, nor can a bad tree bear good fruit. Every tree that does not bear good fruit is cut down and thrown into the fire. Therefore by their fruits you will know them.'

**Mike German:** Mr Presiding Officer, I would like to begin by reaffirming the sentiments, admirably expressed so far, in welcoming you to your appointment. On behalf of the Liberal Democrats I offer my support to you and to the Deputy Presiding Officer. I also offer my congratulations to Alun Michael, and to all of you who share with me the opportunity of forging a new future for Wales. Although we can use the words 'historic' or 'momentous', none of us can grasp fully the privilege and responsibility that I am sure we all feel. I felt it in the past few days, if only as a result of the unprecedented press interest in Liberal Democrat policy and philosophy. I add, to my colleagues and friends in the gallery, that such interest is most welcome and I hope it continues. However, for me—and I know I speak for

Dywedaf wrth y Prif Ysgrifennydd, sy'n wleidydd profiadol ac yn gwybod mor bwysig yw deall ysbryd y Tŷ, fod y Cynulliad â'i fryd ar godi'r gwaharddiad. Fel Ysgrifennydd Gwladol yn San Steffan, dylai wneud hynny yn awr, cyn i'r Cynulliad ei orfodi i wneud hynny.

Mae gwleidyddion o bob plaid wedi gwneud llu o addewidion ac addunedau dros yr wythnosau diwethaf. Bellach, mae'r ymgyrchu ar ben. Daeth yr amser i weithredu ac mae cloc y prysur bwysu ar gerdded. Bydd y rhai a bleidleisiodd ddydd Iau diwethaf, a'r sawl na phleidleisiodd, yn barnu'r hyn a wneir yma ar sail yr addewidion. Da fyddai i bawb ohonom gofio geiriau'r Efengyl yn ôl Mathew: 'Gochelwch rhag gau broffwydi, y rhai a ddeuant atoch yng ngwisgoedd defaid, ond oddi mewn bleiddiaid rheibus ydynt hwy. Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt. A gasgl rhai rawnwin oddi ar ddrain, neu ffigys oddi ar ysgall? Felly pob pren da sydd yn dwyn ffrwythau da, ond y pren drwg sydd yn dwyn ffrwythau drwg. Ni ddichon pren da ddwyn ffrwythau drwg, na phren drwg ddwyn ffrwythau da. Pob pren heb ddwyn ffrwyth da, a dorrir i lawr, ac a deflir yn tân. Oherwydd paham, wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt.'

**Mike German:** Mr Llywydd, hoffwn ddechrau drwy ategu'r dymuniadau da, a fynegwyd mor ardderchog eisoes, wrth eich croesawu i'ch swydd. Ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol, cynigïaf fy nghefnogaeth i chi ac i'r Dirprwy Lywydd. Hoffwn hefyd longyfarch Alun Michael, a phob un ohonoch sy'n rhannu gyda mi y cyfle i lunio dyfodol newydd i Gymru. Er ein bod yn defnyddio'r geiriau 'hanesyddol' neu 'tra phwysig', ni all yr un ohonom lwyr ddirnad yr anrhydedd a'r cyfrifoldeb yr ydym i gyd, bid siŵr, yn ymglywed â hwy. Ymdeimlais innau â hwy dros y dyddiau diwethaf, pe na bai ond am ddiddordeb anarferol y wasg ym mholisïau ac athroniaeth y Democratiaid Rhyddfrydol. Ychwanegaf, wrth fy nghydweithwyr a'm ffrindiau yn yr oriel, fod diddordeb o'r fath i'w groesawu'n

the Liberal Democrats—I make a commitment to you, Mr Presiding Officer, and to my fellow Members of this Assembly. More important, I make this commitment to the people of this proud nation.

11:29 a.m.

Yr wyf yn gwneud addewid syml. Byddwn yn gweithio, uwchlaw popeth arall, i sicrhau llywodraeth well i Gymru.

It is a simple pledge. I am saying that we will strive, above all else, to ensure better government for Wales. We will turn our hands to secure the stability of the devolved political settlement into which we have now entered. We will fight for what we believe with good grace and sense, yet be unafraid of working in partnership where possible. We will fix our minds on the onerous task of earning the respect of those we have been elected to serve—something they deserve and have a right to expect. Finally, we will set our faces towards the future, by asking not what Wales can do for us, but what we can do for Wales. There is much that we can do. We may be only six, perfectly formed as we are, but our ambition is to fight harder for Wales than if we were 10 times that number. Our ambition is undaunted. For the Liberal Democrats, this is not a new political dawn which wakes us from a long and fruitless sleep, but a dawn for which we have watched and waited for over 100 years. Gladstone was one of those midnight dreamers. ‘You cannot fight against the future’ he reasoned, ‘time is on our side.’ One hundred years! He was right. Lloyd George kept the vigil light burning, convinced that a Welsh Parliament would provide self-respect and a new form of political expression for the people of Wales. His faith has been vindicated in the speeches you have heard and will hear today. This is our legacy, and that is why I am proud to speak as a Liberal Democrat in this Assembly. This is why my colleagues and I are prepared to accept the many great challenges that lie before all of us in this Chamber.

fawr: gobeithio y bydd yn parhau. Fodd bynnag—a gwn fy mod yn siarad dros y Democratiaid Rhyddfrydol—gwnaf ymrwymiad i chi, Mr Llywydd, ac i'm cyd-Aelodau yn y Cynulliad. Yn bwysicach fyth, gwnaf ymrwymiad i bobl y genedl falch hon.

I make a simple pledge. We will work, above all else, to ensure better government for Wales.

Addewid syml ydyw. Yr wyf yn dweud y byddwn yn ymdrechu, uwchlaw popeth, i sicrhau gwell llywodraeth i Gymru. Byddwn yn bwrw ati i sicrhau sefydlogrwydd y gyfundrefn wleidyddol newydd a datganoledig hon. Byddwn yn brwydro dros yr hyn y credwn ynddo gyda gras a phwyll, ond heb ofni gweithio mewn partneriaeth lle y gallwn. Byddwn yn canolbwyntio ar y dasg anodd o ennyn parch y rhai y cawsom ein hethol i'w gwasanaethu—maent yn haeddu hynny ac mae ganddynt hawl i'w ddisgwyl. Yn olaf, trown ein hwynebau tua'r dyfodol, gan ofyn nid pa beth y gall Cymru ei wneud drosom ni, ond beth y gallwn ni ei wneud dros Gymru. Gallwn wneud llawer iawn. Er nad oes ond chwech ohonom, ac nad oes ein gwell, ein huchelgais yw brwydro'n galetach dros Gymru na phe bai dengwaith mwy ohonom. Ni phylwyd ein huchelgais. I'r Democratiaid Rhyddfrydol, nid gwawr wleidyddol newydd i'n deffro o drymgwsg maith ac ofer yw hon, ond gwawr y buom yn gwylio a disgwyl amdani ers canrif a mwy. Yr oedd Gladstone ei hun yn un o'r breuddwydwy. ‘Ni ellwch ymladd y dyfodol,’ ymresymodd, ‘mae amser o'n plaid.’ Canrif gyfan! Yr oedd yn iawn. Cadwodd Lloyd George y fflam ynghyn, wedi ei argyhoeddi y byddai Senedd i Gymru yn rhoi hunan-barch a mynegiant gwleidyddol newydd i bobl Cymru. Cyflawnwyd ei obeithion yn yr areithiau sydd i'w clywed yma heddiw. Dyma'n hetifeddiaeth, a dyna pam yr wyf yn falch o gael siarad fel Democrat Rhyddfrydol yn y Cynulliad hwn. Dyna pam y mae fy nghydweithwyr a minnau yn barod i dderbyn pob her a ddaw i ran pob un ohonom yn y Siambr hon.

We are not creating the kind of indigenous economic growth we would like to see in Wales. There is an entrepreneurial spirit, energy and creativity that is, as yet, undiscovered in our nation. Our task is to work to provide a platform that can give the people of Wales the confidence and resources to tap into this talent. We need to engage with those who are excluded from our society by poverty, lack of economic well-being and the political process. These are factors which, up until now, have conspired against them. Our Assembly is here to change that.

We have a unique opportunity and a profound duty to nurture the deep sense of fairness in Welsh society. The enduring and principal values of liberty and community should be underwritten by tolerance and partnership. Radicalism will have its place, and it will be fashioned in the context of a more open, fair and egalitarian society: a new kind of democracy for a new kind of Wales. Mr Presiding Officer, this is your challenge and it is our challenge. If we accept it, we will build a Wales fit for the millennium.

**Dafydd Wigley:** Mae'n anrhydedd fawr cael traddodi un o areithiau cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru—y corff democrataidd cyntaf erioed ar raddfa genedlaethol Gymreig. Mae'n ddatblygiad cwbl hanesyddol, mae'n ddechreuad newydd i'n cenedl ac mae'n sialens i bob un ohonom sicrhau bod y datblygiad hwn o les i bobl Cymru ym mhob rhan o'n gwlad. A gaf fi eich llongyfarch chi, Mr Llywydd, ar eich ethol yn unfrydol i'r swydd? Dymunwn bob bendith, gweledigaeth a goddefgarwch ichi yn eich gwaith. Mae'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom i'ch cynorthwyo i warchod safonau uchaf a gofynion pellgyrhaeddol y swydd, gan fod y cyfrifoldeb sydd ar eich ysgwyddau chi, mewn gwirionedd, yn rhan o'n cyfrifoldebau ni oll fel Aelodau. Ar ran grŵp Plaid Cymru, gallaf ddatgan y cewch gefnogaeth lawn yn eich dyletswyddau. Gwyddom y bydd gennych y profiad, y gwerthoedd a'r gallu i fod yn Llywydd cyntaf arbennig iawn. Ond

Nid ydym yn creu'r math o dwf economaidd brodorol yr hoffem ei weld yng Nghymru. Mae yn ein cenedl ysbryd mentrus, egni a chreadigolrwydd nad ydynt wedi eu darganfod eto. Ein tasg ni yw gweithio i greu llwyfan a rydd i bobl Cymru yr hyder a'r adnoddau i fanteisio ar y doniau hyn. Mae angen inni weithio gyda'r sawl a alltudiwyd o'n cymdeithas gan dlodi, diffyg mantais economaidd, a'r broses wleidyddol. Mae'r rhain yn ffactorau sydd, hyd yma, wedi cynllwynio yn eu herbyn. Mae ein Cynulliad yma i newid hynny.

Mae gennym gyfle unigryw a dyletswydd fawr i feithrin ymdeimlad dwfn o degwch yng nghymdeithas Cymru. Yn sail i egwyddorion parhaus a holl-bwysig rhyddid a chymuned, rhaid wrth oddefgarwch a phartneriaeth. Bydd i radicaliaeth ei lle, a chaiff ei llunio yng nghyd-destun cymdeithas sy'n fwy agored, teg a chydradd: math newydd o ddemocratiaeth ar gyfer math newydd o Gymru. Mr Llywydd, dyma'r her i chi a'r her i ninnau. Os derbyniwn hi, fe adeiladwn Gymru sy'n gweddu i'r mileniwm.

**Dafydd Wigley:** It is a great honour to deliver one of the first addresses at the National Assembly for Wales—the first ever democratic body in Wales at a national level. It is a truly historic development. It is a new beginning for our nation and it is a challenge for every one of us to ensure that this development will benefit the people of Wales in all parts of our country. I congratulate you, Mr Presiding Officer, on your unanimous election to this post. We wish you every blessing, vision and tolerance in this post. It is the responsibility of each one of us to try to assist you to safeguard the highest standards and to meet the far-reaching demands of this post. The responsibility on your shoulders is, in reality, part of our combined responsibilities as Members. On behalf of the Plaid Cymru group, I can state that you will get full support in your duties. We know that you have the experience, the values and the ability to be a highly successful first Presiding Officer.

gobeithio na fyddwch chi'n dioddef yr un ffawd â'ch rhagflaenydd o Feirion, John Jones Maesygarneidd, a gafodd ei ddyrchafu yn Nhŷ'r Cyffredin i Gyngor Gwarchod y Wladwriaeth ond a fu mor anffodus â chael ei ddienyddio am sefyll dros egwyddor. Yr wyf yn sicr y byddwch chi yr un mor eiddgar dros egwyddorion, ond heb orfod talu'r fath bris. Hynny, wrth gwrs, yw mantais gweithio mewn gwleidyddiaeth gynhwysol.

Llongyfarchaf Jane Davidson hefyd ar gael ei dyrchafu i swydd y Dirprwy Lywydd. Dymunwn yn dda iddi yn ei gwaith.

Llongyfarchaf Alun Michael ar gael ei ethol yn Brif Ysgrifennydd cyntaf ein gwlad. Byddwn wedi hoffi gwneud y swydd fy hun ond gan fy mod yn ddemocrat, derbyniaf ddyfarniad yr etholwyr. Eich plaid chi sydd â'r nifer fwyaf o seddi yn y Cynulliad ac mae'n briodol, felly, mai eich enw chi a ddaeth gerbron. Dymunwn bob nerth a llwyddiant ichi yn y gwaith gan fod buddiannau Cymru yn eich dwylo. Mae dyfodol ein gwlad a'n cenedl yn dibynnu i raddau sylweddol ar eich arweiniad, ar ein cydweithrediad fel pleidiau ac ar hygredd y Cynulliad hwn. Dymunwn yn dda ichi ar gyfer y cyfnod hanesyddol sydd o'n blaen.

Diolchaf i holl staff y Swyddfa Gymreig a staff newydd y Cynulliad am eu gwaith sylweddol wrth baratoi ar gyfer heddiw. Wrth inni ymgynnull, carwn dalu teyrnged i ddau a fu'n ganolog dros y blynyddoedd yn yr ymgyrch i sicrhau democratiaeth i'n gwlad. Hoffwn dalu teyrnged i gyn-Lywydd Plaid Cymru, Gwynfor Evans, a fydd yn dilyn y ddadl hon gartref, ac i Ron Davies am ei waith pan oedd yn Ysgrifennydd Gwladol. Bu'n gyfrifol am weld y Mesur drwy Dŷ'r Cyffredin ac am arwain yn y refferendwm i sicrhau pleidlais Ie.

In congratulating you on your appointment as First Secretary, I hardly need remind this Chamber that all four parties are minority parties—granted that some are

I hope you will not suffer the fate of one of your Meirionnydd predecessors, John Jones Maesygarneidd, who was elevated in the House of Commons to the Protectorate, but was unfortunate enough to be executed for being true to his principles. I am sure that you will be just as keen to maintain your principles, but without having to pay such a price. That, of course, is the advantage of working in inclusive politics.

I also congratulate Jane Davidson on being elected to the post of Deputy Presiding Officer. We wish her well in her post.

I congratulate Alun Michael on being elected first First Secretary of our country. I would have liked the position myself but, as a democrat, I accept the decision of the electorate. Your party has the greatest number of seats in the Assembly and it is appropriate, therefore, that it was your name that was put forward. We wish you every strength and success in your post as the interests of Wales are in your hands. The future of Wales depends, to a great extent, on your leadership, on our co-operation as parties and on the credibility of this Assembly. We wish you well for this historic period ahead.

I thank all the staff of the Welsh Office and the new Assembly staff for their considerable work preparing for today. As we assemble, I also pay tribute to two men who have been central over the years in the campaign to secure democracy for our country. I would like to pay tribute to the former President of Plaid Cymru, Gwynfor Evans, who will be following this debate at home, and to Ron Davies for his work as Secretary of State. He was responsible for seeing the Bill through the House of Commons and for leading the referendum to ensure a Yes vote.

Wrth eich llongyfarch ar eich penodiad yn Brif Ysgrifennydd, prin bod angen i mi atgoffa'r Siambr hon fod y pedair plaid yn bleidiau lleiafrifol—er bod rhai yn



larger minorities than others. Being all minorities must reinforce our appreciation that the Assembly we serve is larger than any one of us, and that the nation we serve is larger than any one party.

This is a new beginning for Wales and it is appropriate that we should seek to make a fresh start in our work, and in our approach to our work in this Chamber. Whatever the faults and merits of the workings of the House of Commons, and there are merits as well as very obvious shortcomings, we must strive to create in this Chamber—and we will have a more appropriate Chamber before too long—a new approach to politics, working within our great democratic and co-operative values as a nation. We must avoid unnecessary confrontation and the sterile oppositionist stances that have done so much damage to the status of politics in these islands.

Where we have common cause across some, or indeed all, of the parties, let us build on that for the benefit of Wales. Where there is disagreement, let that be openly and honestly expressed, but on a courteous and comradely basis. Most of all, let our debates and decision-taking be open and transparent so that we can carry our country with us. We shall test and challenge the Government's policies from time to time, but we shall do so not to undermine them, but to make them much more acceptable and effective. We shall also put forward our own positive policies for consideration.

In standing for our National Assembly, we have all taken on the responsibility to make it work for everyone in Wales and for every part of Wales. The Assembly has a status by virtue of being a democratic focus for our national life, and being both a forum and a conscience for our nation. While it is entitled to respect and support on that basis, the Assembly can win the hearts and minds of the people of Wales only by making a positive difference for them in every aspect of their daily lives.

lleiafrifoedd mwy nac eraill. Bydd y ffaith mai lleiafrifoedd ydym oll yn gwneud inni werthfawrogi ymhellach fod y Cynulliad a wasanaethir gennym yn fwy nag unrhyw un ohonom, a bod y genedl a wasanaethwn yn fwy nag unrhyw blaid.

Mae hyn yn ddechrau newydd i Gymru ac mae'n briodol ein bod yn ceisio dechreuad newydd yn ein gwaith, ac yn y ffordd yr awn i'r afael â'n gwaith yn y Siambr hon. Beth bynnag fo beiau neu rinweddau trefn Tŷ'r Cyffredin, ac mae yna rinweddau yn ogystal â diffygion amlwg iawn, rhaid inni ymdrechu i greu yn y Siambr hon—a bydd gennym Siambr fwy priodol cyn bo hir—ddull newydd o ymdrin â gwleidyddiaeth, gan fod yn ffyddlon i'n gwerthoedd democrataidd a chydweithredol rhagorol fel cenedl. Rhaid inni osgoi gwrthdaro diangen a'r safbwyntiau gwrthbleidiol difudd a wnaeth gymaint o niwed i statws gwleidyddiaeth yn yr ynysoedd hyn.

Lle y gallwn gytuno â'n gilydd ar draws rhai, neu yn wir bob un, o'r pleidiau, gadewch inni adeiladu ar hynny er budd Cymru. Lle y bo anghytuno, boed i hynny fynegiant agored ac onest, ond ar sylfaen gwrtais a chyfeillgar. Yn bennaf oll, boed ein trafod a'n penderfynu yn agored a thryloyw fel y bo'r wlad yn ein cefnogi. O dro i dro, byddwn yn profi a herio polisiau'r Llywodraeth, ond gwnawn hynny nid i'w tanseilio, ond i'w gwneud yn llawer mwy derbyniol ac effeithiol. Byddwn hefyd yn cyflwyno ein polisiau cadarnhaol ein hunain gerbron i'w hystyried.

Wrth sefyll ar gyfer ein Cynulliad Cenedlaethol, ysgwyddodd pob un ohonom y cyfrifoldeb i wneud i'r sefydliad weithio dros bawb yng Nghymru a thros bob rhan o Gymru. Mae i'r Cynulliad statws am ei fod yn ffocws democrataidd i'n bywyd cenedlaethol, ac am ei fod yn fforwm a chydwybod i'n cenedl. Er ei fod yn haeddu parch a chefnogaeth ar y sail honno, dim ond trwy wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl Cymru ym mhob agwedd o'u bywydau

11:39 a.m.

It is by our fruits that we shall be judged, and we have an immense duty to make it work. My party, Plaid Cymru, comes into the Assembly willing and eager to make it work on this basis.

The powers of the National Assembly are limited—some would say too limited—in terms of its legislative and financial capacity. Nonetheless, it has significant powers in both the executive and legislative functions and it is up to us to use these powers to the full. We in Plaid Cymru will, therefore, work within the powers at our disposal to play our part and to make a positive contribution in developing an economic policy that can help improve the standard of living and the quality of life in every part of Wales. We shall advocate positive progressive policies in the spheres of social and educational activities and support sustainable development in Wales in a manner that respects our environmental and cultural heritage. Not least, we shall support all steps to play a full role within a European context. We shall argue not just for the devolution of power to Wales, but for the devolution of power and of jobs from Cardiff to other parts of Wales.

beunyddiol y gall ennill eu calonnau a'u meddyliau.

Wrth ein ffrwythau y'n bernir ni, ac mae gennym ddyletswydd aruthrol i wneud iddo weithio. Daw fy mhlaid i, Plaid Cymru, i'r Cynulliad yn barod ac yn eiddgar i wneud iddo weithio ar y sail hon.

Cyfyngedig yw pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol—rhy gyfyngedig yn ôl rhai—o ran grym deddfwriaethol ac ariannol. Er hynny, mae ganddo bwerau sylweddol o ran ei swyddogaethau gweithredol a deddfwriaethol; rhaid i ni ddefnyddio'r pwerau hyn i'r eithaf. Byddwn ni ym Mhlaid Cymru, felly, yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael i chwarae ein rhan a gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at ddatblygu polisi economaidd a all gynorthwyo i wella safon byw ac ansawdd bywyd pob rhan o Gymru. Byddwn yn annog polisiau blaengar a cadarnhaol ym meysydd gweithgaredd cymdeithasol ac addysgol ac yn cefnogi datblygu cynaliadwy yng Nghymru mewn modd sy'n parchu ein hetifeddiaeth amgylcheddol a diwylliannol. Byddwn hefyd yn cefnogi pob cam i chwarae rhan lawn yn y cyd-destun Ewropeaidd. Byddwn yn dadlau nid yn unig dros ddatganoli grym i Gymru, ond dros ddatganoli grym a swyddi o Gaerdydd i rannau eraill o Gymru.

Nid oes rhaid i mi ddweud bod yr achlysur hwn yn un cwbl hanesyddol ac mai braint o'r mwyaf yw cael cymryd rhan yn y trafodaethau. Yr ydym ar ddechrau canrif a mileniwm newydd, ac addas iawn yw ein bod ni yn cael arddel y pwerau hyn o ymreolaeth dros ein gwlad. Gwn y byddwn oll yn cydweithio i sicrhau llwyddiant y fenter a dymunwn bob bendith i'r prif swyddogion.

**Y Llywydd:** Diolchaf i arweinwyr y pleidiau i gyd am eu geiriau caredig. Hir y parhao tymor ewyllys da.

Deuwn at yr eitem olaf ar agenda heddiw. Galwaf felly ar y Prif Ysgrifennydd i gyhoeddi'r Datganiad Busnes.

I need not add that this is a truly historic occasion and it is a great honour to be able to participate in the proceedings. We are at the beginning of a new century and a new millennium and it is most appropriate that we are able to embrace these new powers of autonomy for our country. I know that we will all collaborate and co-operate to ensure the success of this venture and we wish all the chief officers well.

**The Presiding Officer:** I thank all the party leaders for their kind words. Long may this season of good will continue.

We come to the last item of business on today's agenda. I therefore call upon the First Secretary to deliver the Business Statement.

### **Datganiad Busnes Business Statement**

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ar ôl heddiw, wrth gwrs, y Trefnydd a fydd yn cymryd y cyfrifoldeb hwn, ond un o'm cyfrifoldebau i ar hyn o bryd yw dweud pwy fydd y Trefnydd a phwy fydd aelodau eraill y Cabinet.

I stress that in future it will be the Business Secretary who will have this responsibility, but, of course, it is my responsibility to appoint the Business Secretary as well as the other members of the Cabinet.

Before I do that, I want to echo something that has already been said and offer a word of thanks to the staff at the Welsh Office—now the staff of the Assembly—for the immense amount of enthusiasm and hard work that they have put in over the past two years. One of the great surprises and delights to me on arriving at the Welsh Office was to discover the degree of enthusiasm. The staff of the Assembly—those people who have worked in the Welsh Office up until now—are looking forward to working with you. This may come as a surprise—of

**The First Secretary:** After today, of course, this responsibility will fall to the Business Secretary, but one of my responsibilities at the moment is to name the Business Secretary and also the other members of the Cabinet.

Hoffwn bwysleisio mai'r Trefnydd fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn yn y dyfodol, ond, wrth gwrs, fy nghyfrifoldeb i yw penodi'r Trefnydd ynghyd ag aelodau eraill y Cabinet.

Cyn imi wneud hynny, hoffwn ategu rhywbeth a ddywedwyd eisoes a chynnig gair o ddiolch i staff y Swyddfa Gymreig—sef staff y Cynulliad erbyn hyn—am eu brwdfrydedd aruthrol a'u gwaith caled dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Un o'r pethau a'm synnodd ac a'm calonogodd wrth gyrraedd y Swyddfa Gymreig oedd canfod maint y brwdfrydedd. Mae staff y Cynulliad—y bobl hynny a fu'n gweithio hyd yn hyn yn y Swyddfa Gymreig—yn edrych ymlaen at gydweithio â chi. Efallai y bydd hyn yn eich synnu—wrth gwrs, yr oedd hynny

course, it was before they met you—but after two days their enthusiasm seems undimmed. Long may that continue. Many of you have commented to myself and others on the warmth of the welcome and the degree of co-operation that you have received from the Assembly staff. They feel that this has been reciprocated by Assembly Members from all parties. Long may that also continue.

Particular mention should be made of the work of Jon Shortridge, the Permanent Secretary; John Lloyd, who leads the Office of the Presiding Officer; and Lawrence Conway, the Cabinet Secretary. I do not think that we should underestimate the extent of their preparatory work. The business for next week reflects that work. As many people will appreciate already, an immense amount of work has gone on and there has been much consultation work by the National Assembly Advisory Group and consultation with other parties in preparing the ground for the business.

On Tuesday 18 May, a meeting of the Cabinet will be held in the morning. The Assembly will meet in Plenary in the afternoon and the business will include the election of the Business Committee and motions which will call on the Assembly to approve or adopt the Code on Standards of Conduct; the Guidance to Members on the Registration of Interests; the Code of Conduct for Assembly Secretaries; and the Code of Conduct in the Chamber. This will be followed by the resolutions to delegate functions to the First Secretary.

On Wednesday 19 May, the Assembly will meet in Plenary in the afternoon when the business will include the election of the Panel of Subject Committee Chairs, followed by the First Secretary's Question Time, to which I am looking forward with great pleasure. This will be followed by motions to adopt the Code of Practice on Access to Information, in accordance with the provisions of Standing Order No. 17 and the motion to take note of the Code on Staff/Members Relations and the Code on

cyn iddynt gwrdd â chi—ond nid yw eu brwdfrydedd wedi pylu dim ar ôl deuddydd. Hir y parhao hynny. Mae llawer ohonoch wedi sôn wrthyf fi ac wrth eraill mor gynnes oedd y croeso a gawsoch gan staff y Cynulliad ac mor barod ydynt i gydweithredu â chi. Teimlant hwythau fod Aelodau'r Cynulliad o bob plaid yn ymateb yn yr un modd. Hir y parhao hynny hefyd.

Dylid cyfeirio'n arbennig at waith Jon Shortridge, yr Ysgrifennydd Parhaol; John Lloyd, sy'n arwain Swyddfa'r Llywydd; a Lawrence Conway, Ysgrifennydd y Cabinet. Ni ddylem ddiystyru maint y gwaith paratoi a wnaed ganddynt. Mae'r busnes ar gyfer yr wythnos nesaf yn adlewyrchu hynny. Fel y bydd llawer eisoes yn sylweddoli, bu gwaith aruthrol ar droed gyda llawer iawn o ymgynghori gan Grwp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol ac ymgynghori â phartion eraill wrth fraenaru'r tir ar gyfer y busnes.

Ddydd Mawrth 18 Mai, cynhelir cyfarfod o'r Cabinet yn y bore. Bydd y Cynulliad yn cwrdd mewn Sesiwn Llawn yn y prynhawn a bydd y busnes yn cynnwys ethol y Pwyllgor Busnes a chynigion yn galw ar y Cynulliad i gymeradwyo neu fabwysiadu'r Cod Safonau Ymddygiad; yr Arweiniad i Aelodau ar Gofrestru Buddiannau; y Cod Ymddygiad i Ysgrifenyddion y Cynulliad; a'r Cod Ymddygiad yn y Siambr. Wedyn ceir penderfyniadau i ddirprwyo swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd.

Ddydd Mercher 19 Mai, bydd y Cynulliad yn cwrdd mewn Sesiwn Llawn yn y prynhawn a bydd y busnes yn cynnwys ethol Panel Cadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc, wedyn ceir Sesiwn Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd, ac yr wyf yn edrych ymlaen at hynny yn eiddgar. Dilynir hyn gan gynigion i fabwysiadu'r Cod Ymarfer ar Hawl i Weld Gwybodaeth, yn unol â darpariaethau Rheol Sefydlog Rhif 17 a'r cynnig i sylwi ar y Cod ar Berthynas Staff/Aelodau a'r Cod ar Ddarparu

Provision of Information to Members. I will make arrangements for a timetable with business for next week to be placed on the intranet.

In future, the Business Committee will be able to consider the weight of business that can be dealt with in any Plenary session. In preparing the ground for the Assembly, we have consulted other parties on the formal documents that have to be approved to turn the Assembly into a fully functioning body. We have to prepare the ground for 1 July, when the responsibilities transfer from the Secretary of State to the Assembly. I hope that the Members will co-operate with us in order to get through this business. I and others are happy to discuss these items informally in advance, particularly if clarification and discussion can assist debate, but I hope that we can meet the proposed timetable.

Earlier, reference was made to beef on the bone and to a motion being tabled. It is something for the Business Committee to consider in due course when programming business. I would say one thing on that topic, and it is that many comments are made in the heat of an election campaign. It is important for the Assembly, from the beginning, to recognise that we are now a responsible body and that all the evidence—medical and other evidence—should be considered by all Members in coming to a conclusion on how they respond to any resolution which is properly tabled and which refers properly to the powers that the Assembly will have after 1 July.

I now come to the membership of the Cabinet, as the Standing Orders require the First Secretary, as soon as possible, to inform the Assembly as a whole of decisions. It is also important because the responsibilities of the Assembly Secretaries will be reflected in the Subject Committees for which we now have to consider the Chairs and then the membership in the course of the coming

Gwybodaeth i Aelodau. Byddaf yn trefnu bod amserlen fusnes yr wythnos nesaf yn cael ei rhoi ar y fewnrwyd.

Yn y dyfodol, gall y Pwyllgor Busnes ystyried faint o fusnes y gellir delio ag ef mewn unrhyw Sesiwn Llawn. Wrth fraenaru'r tir ar gyfer y Cynulliad, yr ydym wedi ymgynghori â phleidiau eraill ynghylch y dogfennau ffurfiol y mae'n rhaid eu cymeradwyo er mwyn gwneud y Cynulliad yn gorff cwbl weithredol. Rhaid inni baratoi ar gyfer 1 Gorffennaf, pan fydd y cyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Cynulliad. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau'n cydweithredu â ni er mwyn cyflawni'r busnes hwn. Yr wyf fi ac eraill yn barod i drafod yr eitemau hyn yn anffurfiol ymlaen llaw, yn enwedig os gall egluro a gwyntyllu hyrwyddo'r drafodaeth, ond gobeithiaf y gallwn gadw at yr amserlen arfaethedig.

Yn gynharach, cyfeiriwyd at gig eidion ar yr asgwrn ac at gyflwyno cynnig. Mae'n rhywbeth i'r Pwyllgor Busnes ei ystyried maes o law wrth raglennu'r busnes. Hoffwn ddweud un peth ar y pwnc, a hynny yw bod llawer o sylwadau'n cael eu gwneud yng ngwres ymgyrch etholiadol. Mae'n bwysig i'r Cynulliad gydnabod, o'r dechrau, ein bod bellach yn gorff cyfrifol ac y dylai pob Aelod ystyried yr holl dystiolaeth—yn dystiolaeth feddygol a thystiolaeth arall—cyn penderfynu sut i ymateb i unrhyw benderfyniad a roddir gerbron yn briodol ac sy'n cyfeirio'n briodol at y pwerau a fydd gan y Cynulliad ar ôl 1 Gorffennaf.

Deuaf yn awr at aelodaeth y Cabinet, gan ei bod yn ofynnol, dan y Rheolau Sefydlog, i'r Prif Ysgrifennydd hysbysu'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd am benderfyniadau. Mae'n bwysig hefyd gan y bydd cyfrifoldebau Ysgrifenyddion y Cynulliad yn cael eu hadlewyrchu yn y Pwyllgorau Pwnc y mae'n rhaid i ni bellach ystyried Cadeiryddion ar eu cyfer, ac yna'r aelodaeth dros y dyddiau a'r

days and weeks. I shall refer shortly to the subjects that will be covered because I think there is one point that it is important to recognise. In the past, there has tended to be departmentalism in the way in which subjects are dealt with. That has happened across Whitehall and within the Welsh Office.

There has been an increasing recognition of cross-cutting issues, such as education and health in relation to children or the care of the elderly; sustainable developments that cut across many different areas; social exclusion or the attempt to make society more socially inclusive, which cannot be dealt with simply as an economic or social issue, as they relate to each other. It is therefore my intention to allocate to each of the Assembly Secretaries both what I would call departmental subjects and cross-cutting subjects. That means that there will be Assembly Committees that take both subject and cross-cutting responsibilities. I hope that that will enable all of us to recognise that we need an integrated approach to the development of policies and the delivery of services. We must recognise the nature of those facts.

I want to refer almost in shorthand terms to the responsibilities. First, I shall deal with economic developments, including many of the issues relating to Europe. Rhodri Morgan has accepted the role of dealing with jobs and the economy, which must be one of the key priorities for the Assembly. I think everybody will recognise the knowledge, energy and enthusiasm that Rhodri will bring to that work.

Secondly, the appointment of the Trefnydd or Business Secretary is one of the worst-kept secrets. I have asked Andrew Davies to undertake that role. He is well known among members of all political parties for his work in the 'Yes For Wales' campaign which, combined with his excellent organisational skills, make him an ideal choice for the management of the

wythnosau sydd i ddod. Cyfeiriaf yn fyr at y pynciau yr ymdrinnir â hwy oherwydd mae un pwynt y mae'n bwysig ei gydnabod. Yn y gorffennol, bu tuedd i ddelio â phynciau ar sail adrannau unigol. Mae hyn wedi digwydd ledled Whitehall ac yn y Swyddfa Gymreig.

Fwyfwy, daethpwyd i gydnabod materion trawsbynciol, megis addysg ac iechyd mewn perthynas â phlant neu ofal am yr henoed; datblygiadau cynaliadwy sy'n croesi llawer maes gwahanol; alltudio cymdeithasol neu'r ymgais i wneud cymdeithas yn fwy cynhwysol yn gymdeithasol. Dyma faterion na ellir delio â hwy yn syml fel rhai economaidd neu gymdeithasol, gan eu bod yn berthnasol i'w gilydd. Fy mwriad i felly yw dyrannu i bob un o Ysgrifenyddion y Cynulliad yr hyn a alwaf yn bynciau adrannol a materion trawsbynciol. Mae hynny'n golygu y bydd gennym Bwyllgorau Cynulliad a fydd â chyfrifoldebau pwnc ac â chyfrifoldebau trawsbynciol. Gobeithiaf y bydd hynny'n galluogi pawb ohonom i gydnabod bod angen bwrw ati mewn modd cyfunol i ddatblygu polisiau a chyflwyno gwasanaethau. Rhaid inni gydnabod natur y ffeithiau hyn.

Hoffwn gyfeirio'n fyr iawn at y cyfrifoldebau. Yn gyntaf, byddaf yn delio â datblygiadau economaidd, gan gynnwys llawer o'r materion sy'n ymwneud ag Ewrop. Mae Rhodri Morgan wedi derbyn y rôl o ddelio â swyddi a'r economi, a fydd o reidrwydd yn un o flaenoriaethau allweddol y Cynulliad. Credaf y bydd pawb yn cydnabod y daw Rhodri â gwybodaeth, egni a brwdfrydedd arbennig i'r gwaith.

Yn ail, mae penodi'r Trefnydd yn un o'r cyfrinachau mwyaf agored. Yr wyf wedi gofyn i Andrew Davies ysgwyddo'r rôl honno. Mae'n dra adnabyddus ymysg aelodau'r holl bleidiau gwleidyddol am ei waith ar yr ymgyrch 'Ie Dros Gymru' ac mae hynny, ynghyd â'i sgiliau trefnu rhagorol, yn ei wneud yn ddewis delfrydol i reoli busnes y Cynulliad.

Assembly's business.

Rosemary Butler will take the role of Children and Young People's Minister. She has already made a tremendous contribution to public life in Wales, as a senior Newport Councillor and in her work on the Broadcasting Council for Wales, and a number of other public bodies.

11:49 a.m.

Health and social services offer a particular challenge. The NHS in Wales gives particular cause for concern, which is why as Secretary of State, I have made a stocktake of the health service in Wales. I have also made certain structural changes, in order to try to lay a foundation for the work of the Assembly. The outcome of that stocktake will be presented to the Assembly soon and it will need a great deal of hard work and attention. That is why I am delighted that Jane Hutt has agreed to take on the portfolio of Minister for Health and Social Services. Many of you will know her work as Director of Chwarae Teg and her involvement in community health care, as well as her extensive knowledge of the voluntary sector in Wales.

Post-16 education and training is very important. Recently we had the report of the Employment and Training Action Group, chaired by Peter Hain. It offers a way forward through integrating the work of schools, colleges and workplace training. Culture, sport and life in Wales, as well as lifelong learning, must also be considered. These need to be pulled together. None of my comments should be regarded as undermining the place of sixth forms in Wales. I am aware that the ETAG report has been misinterpreted in that way; it should not have been. We must examine the best way of making sure that education, training and opportunity are brought together. I have asked Tom Middlehurst to take on that role. He has been a leading figure in politics, not just in north Wales but across Wales, in his capacity as Chair of the Welsh Local

Bydd Rosemary Butler yn ymgymryd â rôl y Gweinidog Plant a Phobl Ifainc. Mae hi eisoes wedi gwneud cyfraniad aruthrol i fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Bu'n Gynghorydd hŷn yng Nghasnewydd ac yn aelod o Gyngor Darlledu Cymru, ynghyd â nifer o gyrff cyhoeddus eraill.

Mae iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn cynnig her arbennig. Mae'r NHS yng Nghymru yn peri pryder arbennig, a dyna pam yr wyf, fel Ysgrifennydd Gwladol, wedi gwneud arolwg o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Gwneuthum rai newidiadau strwythurol hefyd, i geisio gosod sylfaen ar gyfer gwaith y Cynulliad. Cyflwynir canlyniad hwnnw i'r Cynulliad cyn bo hir a chredaf y bydd yn gofyn am lawer iawn o waith caled. Dyna pam yr wyf wrth fy modd fod Jane Hutt wedi cytuno i dderbyn portffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd llawer ohonoch yn gyfarwydd â'i gwaith fel Cyfarwyddwraig Chwarae Teg a'i hymwneud â gofal iechyd cymunedol, yn ogystal â'i gwybodaeth helaeth o'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Mae addysg a hyfforddiant ôl-16 yn dra phwysig. Yn ddiweddar, cawsom adroddiad y Grŵp Gweithredu ar Gyflogaeth a Hyfforddiant, a gadeiriwyd gan Peter Hain. Mae'n cynnig ffordd ymlaen drwy gyfuno gwaith ysgolion, colegau a hyfforddiant yn y gweithle. Yn ogystal â dysgu gydol oes, rhaid hefyd ystyried diwylliant, chwaraeon a bywyd yng Nghymru. Rhaid tynnu'r rhain ynghyd. Ni ddylid tybio bod fy sylwadau yn tanseilio lle'r chweched dosbarth yng Nghymru. Gwn fod adroddiad y Grŵp Gweithredu wedi ei gamddehongli o ran hynny; ni ddylai hynny fod wedi digwydd. Rhaid inni ystyried y ffordd orau o sicrhau bod addysg, hyfforddiant a chyfle yn cael eu dwyn ynghyd. Gofynnais i Tom Middlehurst ymgymryd â'r rôl hon. Bu'n ffigwr blaenllaw mewn gwleidyddiaeth, nid yn unig yng ngogledd Cymru ond ar

Government Association, and I know that he is respected across the political spectrum.

Agriculture and the rural economy is extremely important for many areas of Wales, not least in mid and west Wales. I have asked Christine Gwyther to take on that responsibility. She represents a community with a strong agricultural base and has already shown through her work for economic development in west Wales, her commitment to the vital task of breathing new life into our rural communities. Jobs and hope for the future for rural communities are absolutely crucial.

I have asked Peter Law to undertake the role of Minister for Environment incorporating work with local government and planning responsibilities. Peter's work and interests have extended across many sectors of public life in Wales. Not only has he been a staunch advocate of the interests of people in the south Wales Valleys, but has also served with distinction on the Welsh Language Board.

The role of Finance Secretary is crucial, and I have asked Edwina Hart to take on that responsibility. Edwina, who has a background in banking, will be responsible for the Assembly's finances. Her role also involves considering the way in which we use the resources available to us. We must all try to make sure that we get best value, and not just look at where to allocate resources.

I hope you will agree that, in my choice of Cabinet, I have tried to balance the high calibre of men and women in the Assembly, and also the interests of north, west and south Wales, and the valleys and coasts of all regions of Wales. All these must feel that they have a part in this Assembly, so that it is an Assembly for Wales and not just an Assembly that meets in Cardiff.

**The Presiding Officer:** Is the Business

draws Cymru, fel Cadeirydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a gwn fod parch iddo ar draws y sbectrwm gwleidyddol.

Mae amaethyddiaeth a'r economi wledig yn bwysig eithriadol i sawl rhan o Gymru, yn enwedig yn y Canolbarth a'r Gorllewin. Gofynnais i Christine Gwyther ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn. Mae'n cynrychioli cymuned sydd â sail amaethyddol gref ac mae wedi dangos eisoes, trwy ei gwaith ar ddatblygu'r economi yng ngorllewin Cymru, ei hymroddiad i'r dasg holl-bwysig o anadlu bywyd newydd i'n cymunedau gwledig. Mae swyddi a gobaith at y dyfodol yn holl-bwysig i gymunedau gwledig.

Gofynnais i Peter Law ymgymryd â rôl Gweinidog yr Amgylchedd, gan gynnwys cyfrifoldeb am lywodraeth leol a chynllunio. Mae gwaith a diddordebau Peter wedi ymledu ar draws sawl sector o fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Nid yn unig y bu'n frwd ei gefnogaeth i fuddiannau pobl Cymoedd y De, ond mae hefyd wedi gwasanaethu'n glodwiw ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Mae rôl yr Ysgrifennydd Cyllid yn hanfodol, a gofynnais i Edwina Hart ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwnnw. Edwina, sydd â'i chefnidir yn y byd bancio, a fydd yn gyfrifol am gyllid y Cynulliad. Mae ei rôl hefyd yn golygu ystyried y defnydd a wnawn o'r adnoddau sydd ar gael inni. Rhaid i bawb ohonom geisio sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau, nid dim ond ystyried sut i ddyrannu adnoddau.

Gobeithio y cytunwch i mi, wrth ddewis fy Nghabinet, geisio cydbwysu'r dynion a'r merched rhagorol eu safon sydd yn y Cynulliad, a hefyd fuddiannau gogledd, gorllewin a de Cymru, a chymoedd ac arfordiroedd pob rhan o'r wlad. Rhaid i bob un o'r rhain deimlo bod ganddynt ran yn y Cynulliad, er mwyn iddo fod yn Gynulliad i Gymru, ac nid dim ond Cynulliad sy'n cwrdd yng Nghaerdydd.

**Y Llywydd:** A gytunir â'r Datganiad



Statement agreed?

**Glyn Davies:** I am not completely happy with the Business Statement. I noted the First Secretary's comments on the motions about the beef on the bone ban. I also noted that statements during the election campaign might not represent the serious considered view of the Conservative group. However, it was and is our view that there should be an early opportunity for this Assembly to discuss whether the regulations affecting the beef on the bone ban should be lifted in Wales. I would like to put forward a motion because I am certain that more than ten people here would agree with it. This would ensure an early discussion on whether the regulations affecting the beef on the bone ban should be lifted.

**The Presiding Officer:** I am taking that as an indication of an objection under Standing Order No. 5.4. Under that Standing Order, I am required to ask whether there are ten or more objections to the Business Statement. Would any Member who objects to the Business Statement please indicate by raising their hand.

**Rod Richards:** Point of order. I know that a Member of another party has tabled a similar motion on the same issue. Would that, in your judgement, Mr Llywydd, indicate that ten Members object to the Business Statement on this particular issue?

**The Presiding Officer:** I am afraid that is not a point of order. There are not ten Members objecting to the Business Statement. Therefore, I call the First Secretary to propose that the Assembly adopt the statement.

**The First Secretary:** I understand that a motion has been tabled. As I indicated at the beginning, it is for the Business Committee, whose members we shall elect, to consider tabling that motion for discussion. Nothing in what I have said suggests that there should not be early

Busnes?

**Glyn Davies:** Nid wyf yn gwbl hapus â'r Datganiad Busnes. Nodais sylwadau'r Prif Ysgrifennydd ar y cynigion ynglŷn â'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn. Nodais hefyd nad yw sylwadau yn ystod ymgyrch etholiadol, efallai, yn cynrychioli barn ddifrifol ystyrion y grŵp Ceidwadol. Fodd bynnag, yr oeddem ac yr ydym o'r farn y dylai fod cyfle i'r Cynulliad hwn drafod yn fuan a ddylid codi'r rheoliadau sy'n rhoi grym i'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn yng Nghymru. Hoffwn gyflwyno cynnig gan fy mod yn siŵr y bydd mwy na deg o bobl yma yn cytuno ag ef. Byddai hyn yn sicrhau trafodaeth fuan i ystyried a ddylid codi'r rheoliadau sy'n rhoi grym i'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn ai peidio.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn cymryd eich bod yn gwrthwynebu dan Reol Sefydlog Rhif 5.4. Dan y Rheol Sefydlog honno, mae'n ofynnol imi ofyn a oes deg neu ragor o wrthwynebiadau i'r Datganiad Busnes. A fyddai unrhyw Aelod sy'n gwrthwynebu'r Datganiad Busnes cystal â dangos hynny drwy godi ei law.

**Rod Richards:** Mater o drefn. Gwn fod Aelod o blaid arall wedi cyflwyno cynnig tebyg ar yr un pwnc. A fyddai hynny, yn eich barn chi, Mr Llywydd, yn dangos bod deg Aelod yn gwrthwynebu'r Datganiad Busnes ar y mater arbennig hwn?

**Y Llywydd:** Mae'n ddrwg gennyf ond nid mater o drefn yw hynny. Nid oes deg Aelod yn gwrthwynebu'r Datganiad Busnes. Yr wyf, felly, yn galw ar y Prif Ysgrifennydd i gynnig bod y Cynulliad yn mabwysiadu'r datganiad.

**Y Prif Ysgrifennydd:** Deallaf fod cynnig wedi ei gyflwyno. Fel y dywedais ar y dechrau, mater i'r Pwyllgor Busnes, y byddwn ni yn ethol ei aelodau, yw ystyried cyflwyno'r cynnig hwnnw i'w drafod. Nid oes dim yn yr hyn a ddywedais i awgrymu na ddylid trafod y

discussion of that motion. The powers transfer to this Assembly on 1 July 1999. It is the responsibility of Members to consider all the evidence. I am certain that there will be evidence, from the Chief Medical Officer in Wales and others, which should be considered by the Assembly whenever the motion is timetabled for debate. All Members of the Assembly will then decide how to cast their votes. I assure Rod Richards that nothing obstructs the consideration of the motion or the issue. He will be aware of my enthusiasm for promoting Welsh beef and that I am as keen as anybody to see the ban of beef on the bone lifted. However, I think all of us would agree that we should look at the evidence carefully and make sure that we are taking a responsible decision. I hope that is helpful and that the Assembly will now accept the Order of Business and also accept that there will be many occasions to debate all sorts of issues, including the beef on the bone ban.

**The Presiding Officer:** Thank you, Alun Michael. In the spirit of good will I have allowed this debate to continue in order that a clarification could be given. However, according to the order of proceedings, and as 10 Members did not object, the Assembly, has accepted the Business Statement. Therefore, I thank you for your co-operation thus far.

I declare this first Plenary session of the Assembly closed.  
Diolch yn fawr.

cynnig hwnnw yn fuan. Trosglwyddir y pwerau i'r Cynulliad hwn ar 1 Gorffennaf 1999. Cyfrifoldeb yr Aelodau yw ystyried yr holl dystiolaeth. Yr wyf yn sicr y bydd dystiolaeth, gan y Prif Swyddog Meddygol yng Nghymru ac eraill, y dylai'r Cynulliad ei hystyried pan amserlennir y cynnig i'w drafod. Bydd holl Aelodau'r Cynulliad yn penderfynu wedyn sut i fwrw eu pleidlais. Yr wyf yn sicrhau Rod Richards nad oes dim yn rhwystro ystyried y cynnig na'r mater. Fe wŷr pa mor frwdfrydig yr wyf fi yn hyrwyddo cig eidion Cymru a'm bod mor awyddus â neb i weld codi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn. Fodd bynnag, tybiaf y byddai pawb ohonom yn cytuno y dylem edrych ar y dystiolaeth yn ofalus a sicrhau ein bod yn penderfynu'n gyfrifol. Gobeithiaf fod hyn o gymorth ac y bydd y Cynulliad bellach yn derbyn Trefn y Busnes a hefyd yn derbyn y bydd cyfleoedd lawer i drafod pob math o faterion, gan gynnwys y gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn.

**Y Llywydd:** Diolch, Alun Michael. Fel arwydd o ewyllys da, yr wyf wedi caniatáu i'r drafodaeth barhau er mwyn cael eglurhad. Fodd bynnag, yn ôl trefn y gweithgareddau, a chan nad oes deg aelod wedi gwrthwynebu, y mae'r Cynulliad wedi derbyn y Datganiad Busnes. Diolch, felly, am eich cydweithrediad hyd yma.

Yr wyf yn datgan bod y Sesiwn Llawn cyntaf hwn o'r Cynulliad wedi dod i ben.  
Thank you.

*Daeth y sesiwn i ben am 11:59 a.m.  
The session ended at 11:59 a.m.*